**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 21. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## RHAN 4

## AELODAU SY'N GYFLOGEION

*Dod â phenodiad i ben*

21 Caiff yr aelodau anweithredol ddod â phenodiad aelod sy'n gyflogai i ben drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod os—

(a) bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd SAC heb ganiatâd SAC am gyfanswm o 3 mis neu fwy (dros gyfnod neu gyfnodau) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis,

(b) yw'r aelod wedi mynd yn fethdalwr neu wedi gwneud trefniant â chredydwyr,

(c) yw ystâd yr aelod wedi ei secwestru yn yr Alban neu fod yr aelod wedi ymrwymo i gynllun trefniant dyled o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyled (Yr Alban) 2002 fel dyledwr, neu wedi gwneud, o dan gyfraith yr Alban, gompównd neu drefniant gyda chredydwyr yr aelod neu wedi rhoi gweithred ymddiried iddynt,

(d) yw'r aelod yn anaddas i barhau oherwydd camymddygiad,

(e) yw'r aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad, neu

(f) yw'r aelod yn methu â chyflawni ei swyddogaethau fel arall, yn anaddas i'w cyflawni fel arall, neu'n anfodlon eu cyflawni fel arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 1 para. 21 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 21.